



# Fforwm Rhieni

Mae Ysgol Glanrafon yn awyddus i sefydlu grŵp i helpu'r ysgol a chryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r gymuned.

## BETH YW'R FFORWM RHieni?

Partneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yw'r Fforwm. Bydd yn ffordd werthfawr i rannu syniadau, i helpu efo'r cwricwlwm, ac i gyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

Holl bwrpas y Fforwm Rhieni fydd:

- Gweithio gyda'n gilydd i wella addysg ein plant
- Rhannu sgiliau a gwybodaeth
- Cynnal cyfarfodydd mewn amgylchedd cefnogol cilyddol
- Gwella'r cyfathrebiad rhwng rhieni/gofalwyr a staff/llywodraethwyr.

## BETH YW EI SWYDDOGAETH?

Bydd y Corff Llywodraethol yn parhau i wneud y penderfyniadau ac i ddarparu arweiniad strategol i'r ysgol. Mae gan Fforwm Ysgol Glanrafon rhan ymgynghorol:

- Cryfhau llais y rhieni a'r gofalwyr
- Galluogi dylanwadu ar benderfyniadau
- Hwyluso mynegi barn a syniadau yn yr ysgol
- Cefnogi'r Corff Llywodraethol i hybu lles buddhaol y plant.

Nid yn unig mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi llwyddiant addysg Ysgol Glanrafon, maent hefyd yn ymrwmo i ethos positif ac i amrwyddiad eang o weithgareddau a chyfleoedd y tu hwnt i'r cwricwlwm.

Mae ymwneud a'r Fforwm yn rhoi cyfle i fod yn rhan o'r diwylliant ac i gyfrannu'n ddilys.

## PA DREFN FYDD AR Y CYFARFODYDD?

Bydd trefniadau yn cael ei penderfynu gan y Fforwm yn y cyfarfod cyntaf. Syniadau...

Amser ac amllder – fel rheol, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal unwaith y tymor.

Hyd – 45 munud, a dim mwy nag un awr. Bydd y rhaglen yn cael ei rhannu cyn y cyfarfod.

Agenda- i'w rannu wythnos o flaen llaw. Bydd rhaid ychwanegu unrhyw fusnes arall cyn y cyfarfod.

Cofnodion - byddant yn cael eu rhannu ar ein gwefan ac ar dudalen Fforwm Ysgol Glanrafon.

Pwyntiau gweithredu – byddant yn cael eu crynhoi yn y cofnodion a byddant yn cael eu gwirio

Gall y Fforwm yn awgrymu eitemau i'r agenda e.e cwricwlwm, gwaith cartref, clwb, amser chwarae.

Rhannu llwyddiant – bydd hyn yn bwysig iawn!

## PWY FYDD YR AELODAU?

Mae aelodaeth ar agor i BAWB.

Rhieni, gofalwyr, neiniau, a theidiau Ysgol Glanrafon sydd â diddordeb mewn helpu darparu'r addysg orau i'n plant.

Cynrhychioliad gan staff yr ysgol, gan gynnwys Pennaeth Addysg a Dysgu, ac aelodau yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Bydd y llywodraethwyr yn cael eu hannog i ymuno.

Nid oes uchafswm.

Rydym yn annog aelodaeth o bob blwyddyn ysgol i sicrhau cynrychiolaeth deg.

Bydd rhieni yn rhydd i ddewis ymuno gydag unrhyw gyfarfod.

## Sut i ymuno!

Cyfarfod cyntaf: Dosbarth Mrs Hogg  
5pm Nos Fercher, 17<sup>eg</sup> Tachwedd

Ebostiwch [postglarafon@hwbcymru.net](mailto:postglarafon@hwbcymru.net)  
i gadarnhau eich presenoldeb

Bydd rhaid parhau gyda gweithdrefn arferol yr ysgol lle bod angen cyfeirio unrhyw ofidion neu gwynion at yr athro/athrawes dosbarth neu'r pennaeth. Ni fydd enwau'r plant na'r staff yn cael ei ddefnyddio yn y cyfarfod